# CYNGOR CYMUNED LLANDDANIEL FAB

## Cyfarfod y Cyngor: Dydd Llun, 15 Ebrill 2024, Yr Efail, 18:45-20:40

### 1. Croeso ac ymddiheuriadau
**Presennol:** Margaret Clarke (Cadair), Dawn Doran-Jones, Cyngh. Dafydd Roberts, Robert Frank Sargent, Guto Williams.
**Ymddiheuriadau**: Joanna Robertson, Mark Owen.

### 2. Cofnodion
Robert Sargent yn cadarnhau cofnodion mis Mawrth yn gofnod cywir, Guto Williams yn eilio.

### 3. Materion yn codi
Mae un o'r aelodau, oherwydd nad yw'n gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, wedi anfon nodiadau a sylwadau trwy law y Clerc, a'r Gadair, sy'n berthnasol i'r agenda heno; byddant yn cael eu darllen lle bo'n berthnasol.

**Diogelwch ffyrdd** – dylai bod diogelwch ffyrdd ar yr agenda. Nodir bod rhan fwyaf o'r gwaith gan Scottish Power wedi'i wneud rwan, ond mae yna fwy o waith ar y ffordd. Nodwyd bod un o'r cerrig palmant wedi torri, siawns y bydd yn cael ei drwsio cyn i'r contractwyr adael yr ardal.
Ynglŷn â'r lôn o Star i Llanddaniel, mae'r Peiriannydd Ardal wedi cadarnhau bod cais wedi ei yrru ymlaen i 'Cyfoeth Naturiol Cymru' gan gwmni Cadarn.

**Teithio cyhoeddus** – mae'r cyfarfod cymunedol gyda chynrychiolydd Medrwn Môn wedi ei symud i ddydd Llun 22 Ebrill am 18:30yh; mae'r wybodaeth wedi ei chylchredeg drwy Caru Llanddaniel. Bydd Bethan Lloyd Jukes yn adrodd yn ôl ar ganfyddiadau eu harolwg yn yr Hydref ar ôl colli gwasanaeth bws drwy'r pentref ac yn mentora'r rhai a fynegodd ddiddordeb yn CarLincMon. Bydd nodyn atgoffa o'r cyfarfod yn cael ei bostio ar Caru Llanddaniel ar 19 Ebrill.
Bydd y Cynghorydd Sir yn ceisio cael diweddariad hefyd o ochr y cyngor pam nad yw'r bysiau yn troi am Llanddaniel yn hyrtrach na mynd o Stermat am Star. Mae mwy o bobl ifanc yn cerdded ar y lôn, a tydi hyn ddim yn saff oherwydd nad oes palmant ar ôl y rheilffordd tuag at Gaerwen.

**Cyfyngiadau cyflymder 20mya** – Cafwyd e-bost gan Rhun Ap Iorwerth AS yn estyn gwahoddiad i gwblhau holiadur am effaith y cyfyngiadau cyflymder 20mya yn yr ardal, yn ogystal ac unrhyw sylwadau eraill. Trafodwyd priodoldeb lleihau cyflymder traffig yn raddol, fel bod 'count-down' i'r 20mya. Awgrymwyd ail leoli rhai o'r arwyddion 20mya a'u rhoi'n ôl i 30mya a hefyd gostwng cyflymdra ar y ffyrdd sy'n dod i mewn i'r pentref. Bydd y Gadair yn cwblhau'r holiadur ac yn cynnwys pryderon sydd eisioes wedi eu codi hefo'r Adran Priffyrdd ynglŷn a diogelwch ffyrdd.

### 4. Datgan diddordeb
Dim datganiad.

### 5. Cynllunio
**Ymgynghoriad Cynllunio FPL/2023/305**. Mae'r Cyngor Cymuned yn dymuno datgan ei bryderon ynghylch uchder y datblygiad hwn; byddwn yn ysgrifennu at yr Adran Gynllunio i gofnodi'r pryder hwn, a'n cefnogaeth i blannu coed o amglych y datblygiad.
Dim ceisiadau newydd yn y cyfnod.

## 6. Materion ariannol

Mae'r cyfrifon wedi eu cwblhau i fyny at ddiwedd y flwyddyn ariannol a cais wedi ei gyflwyno ar gyfer adennill y TAW y dalwyd y llynedd.
Mae trefniadau ar y gweill ar gyfer yr archwiliad mewnol, a hysbysiad wedi'i dderbyn gan Swyddfa Archwilio Cymru ynglŷn â'r archwiliad allanol statudol. Pawb yn cytuno i'r Clerc gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i drefnu yr archwiliad mewnol.

Incwm a gwariant ers mis diwethaf:
Incwm:

| | | |
|---|---|---|
| Dim incwm yn y cyfnod | | - |
| | | |
| Gwariant: | £ | |
| Rhodd elusennol | 50.00 | |
| Llogi offer cyfieithu | 120.00 | |
| Aelodaeth – Un Llais Cymru | 154.00 | |
| Misol: | | |
| Cyfieithu - mis Mawrth | 101.25 | |
| Costau banc – Mawrth | 5.00 | |
| Cyflog y Clerc | 415.68 | |
| CThEM – taliadau statudol | 104.00 | |
| | | £949.93 |

*Caniatâd o flaen llaw i dalu Rospa Play Safety Ltd ar gyfer yr arolygiad diogelwch blynyddol, maes chwarae yn y swm £93.60.*

## 7. Llythyrau i'w trafod

**Moel y Don** – Mae aelod o'r gymuned wedi anfon ebost i dynnu sylw'r Cyngor Cymuned at faterion yn ymwneud â Moel y Don. Mae'r plac efydd wedi cael ei ddwyn; mae'r lle yn flêr ac mae pryder ynglŷn â baw ci, a baw dynol, mwy na thebyg oherwydd y ddwy fan wersylla sydd wedi'u lleoli yna bron yn barhaol. Ni ddylai neb barcio yna dros nôs. Dywedodd y Cynghorydd Sir bod Cyngor Gwynedd yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwersylla gwyllt mewn rhai ardaloedd ac mae Cyngor Môn yn treialu hyn ar hyn o bryd. Bydd yr aelodau yn gwirio a oes arwydd i wahardd gwersylla dros nôs; ni all yr heddlu, na'r Cyngor Sir, gymryd camau gorfodi fel arall. Efallai bydd angen talu am arwydd newydd.

**Cefnogi cyfleoedd chwarae** – Mae'r Cyngor Cymuned wedi derbyn cais gan Swyddog Datblygu Chwarae Ynys Môn yn gofyn am wybodaeth i ddeall y sefyllfa bresennol o ran y darpariaethau chwarae yn ein cymunedau. Bydd y Clerc yn anfon ymateb.

## 8. Cae chwarae - diweddariad

Trafodwyd rhai ffyrdd o ddelio â'r tir gwlyb; er enghraifft, mae drysfa helyg ym maes chwarae Llanfairpwll, mae'r coed helyg yn helpu i amsugno'r dŵr. Mae coed helyg wedi bod ar dir yr ysgol, nes iddynt adeiladu estyniad. Efallai byddai llwybr pren neu drawst balans wedi'i osod uwchben y ddaear yn syniad hefyd. Fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf, mae'r Cyngor Cymuned wedi adrodd yn ôl i'r contractiwr ond heb dderbyn ymateb hyd yn hyn.
Pawb o'r farn bod y bwrdd picnic newydd yn edrych yn dda ac yn dymuno diolch i Dawn a'i gŵr am drefnu hyn, ac i'w cymydog am drefnu'r rhisgl coed.

Mae Rospa Playsafety Ltd. wedi anfon hysbysiad y bydd yr arolygiad diogelwch blynyddol o'r maes chwarae yn cael ei gynnal mis Mehefin.

**9. Coed y Gôf - diweddariad**

Trafodaethau wedi bod gyda'r Adran Briffyrdd yn ddiweddar; deallir bod y Cyngor Sir wedi gwneud cais am grant i atgyweirio'r beipen ddŵr sydd wedi cwympo ac yn gwneud cynlluniau i leihau y broblem o wlybaniaeth. Bydd y Cyngor Cymuned wedyn yn ail ystyried ei gynlluniau ar gyfer cael mynediad diogel i'r cyhoedd i'r ardal.

**10. Adroddiad o unrhyw gyfarfodydd**

Cafwyd ardoddiad gan yr aelod-Lywodraethwr Ysgol Parc y Bont yn cynnwys effeithiau y toriadau yng nghyllideb yr ysgol. Nodwyd bod Victoria Ellis wedi dod yn arweinydd newydd ar y Cylch Meithrin.

**11. Adroddiad gan y Cynghorydd Sir**

Adroddodd y Cynghorydd Sir nad oes lawer i adrodd y mis yma oherwydd gwyliau'r Pasg.

Arwyddwyd: M. L. Clarke Dyddiad: 20.5.24.

**LLANDDANIEL FAB COMMUNITY COUNCIL**

**Council Meeting: Monday, 15 April 2024, Yr Efail, 18:45-20:40**

## 1. Welcome and apologies

**Present:** Margaret Clarke (Cadair), Dawn Doran-Jones, Cllr. Dafydd Roberts, Robert Frank Sargent, Guto Williams.
**Apologies**: Joanna Robertson, Mark Owen.

## 2. Minutes

March minutes accepted as a true record by Robert Sargent, seconded by Guto Williams.

## 3. Matters arising

One of the members, unable to attend this meeting, has sent notes and comments by hand of the Clerk, and the Chair, relevant to our agenda this evening; they will be read where applicable.

**Road safety** – Road safety should be on the agenda. It is noted that most of the work by Scottish Power has been done now, but there is more work on the way. One of the paving stones was identified as broken, presumably it will be repaired before the contractors leave the area.
About the road from Star to Llanddaniel, the Area Engineer has confirmed that an application has been forwarded to 'Natural Resources Wales' by Cadarn.

**Public transport** – The community meeting with the Medrwn Môn representative has been moved to Monday 22 April at 18:30pm; the information has been circulated through Caru Llanddaniel. Bethan Lloyd Jukes will report back on the findings of their autumn survey after the loss of bus service through the village and mentor those who expressed interest in CarLincMon. A reminder of the meeting will be posted on Caru Llanddaniel on 19 April.
The County Councillor will also be seeking an update from the County Council's side as to why the buses are not turning for Llanddaniel rather than going from Stermat towards Star. More young people are walking on the road, which is not safe because there is no pavement after the railway towards Gaerwen.

**20mph speed limits** – The Council has received an email from Rhun Ap Iorwerth MP extending an invitation to complete a questionnaire about the impact of the 20mph speed limits in the area, as well as any other comments. The appropriateness of gradually reducing traffic speeds was disussed, so that there would be a 'count-down' to the 20mph range. It was also suggested to relocate some of the 20mph signs and bring them back to 30mph and also reduce speeds on the roads entering the village.
The Chair will complete the questionnaire and include concerns that have already been raised with the Highways Department about road safety.

## 4. Declaration of interest

None.

## 5. Planning

**Planning Consultation FPL/2023/305**. The Community Council wishes to state its concerns about the height of this development; we will be writing to the Planning Department to place on record this concern, and our support for the planting of trees around the structure.
No new applications in the period.

## 6. Financial matters

The accounts have been completed up to the end of the financial year and an application has been submitted for the recovery of the VAT paid last year.
Arrangements are underway for the internal audit, and notice has been received from the Welsh Audit Office regarding the statutory external audit. All agree for the Clerk to contact Gwynedd Council to arrange the internal audit.

Income and expenditure since last month:
Income:
No income in the period: -

| | | |
|---|---|---|
| Expenditure: | £ | |
| Charitable donation | 50.00 | |
| Hire of translation equipment | 120.00 | |
| Annual Membership – One Voice Wales | 154.00 | |
| Monthly: | | |
| Simultaneous translation – March | 101.25 | |
| Bank charges – March | 5.00 | |
| Clerk's wages | 415.68 | |
| HMRC – statutory payments | 104.00 | |
| | | £949.93 |

*Authorisation to pay Rospa Play Safety Ltd for the annual safety inspection of the playground in the amount £93.60.*

## 7. Letters to discuss

**Moel y Don** – A member of the community has sent an email to alert the Community Council to issues relating to Moel y Don. The bronze plaque has been stolen; the place looks a mess and there is concern about dog fouling and human excrement, probably due to the two camper vans located there almost permanently. No one should park there overnight. The County Councillor said Gwynedd Council is making provision for wild camping in some areas and Anglesey County Council is currently trialling this. Members will check if there is a sign to ban overnight camping; neither the police, nor the County Council, can take enforcement action otherwise. We may need to pay for a new sign.

**Supporting play opportunities –**
The Community Council has received a request from the Anglesey Play Development Officer seeking information to understand the current situation regarding play provisions in our communities. The Clerk will send a response.

## 8. Playground - update

We discussed some ways of dealing with the wet ground; for example, there is a willow maze in Llanfairpwll playground, the willow trees help absorb the water. Willow trees have been on the school grounds, until they built an extension. Perhaps a boardwalk or balance beam placed above ground would also be an idea. As agreed at the last meeting, the Community Council has reported back to the contractor but has not yet received a response.
Everyone said that the new picnic table looks good and wanted to thank Dawn and her husband for arranging this, and their neighbour for organising the tree bark.
Rospa Playsafety Ltd. has sent notice that the annual safety inspection of the playground will take place in June.

## 9. Coed y Gôf - update

There have been discussions with the Highways Department recently; we understand that the County Council has applied for a grant to repair the collapsed water pipe and is making plans to reduce the problem of wetness. The Community Council will then reconsider its plans for safe public access to the area.

## 10. Reports of any meetings

There was a report by the member-School Governor, Parc y Bont, including the effects of the cuts in the school's budget. It was noted that Victoria Ellis has become the new leader of the Cylch Meithrin.

## 11. Report from the County Councillor

The County Councillor reported that there is little to report this month due to the Easter holidays.

Signed: M. L. Clarke Date: 20.5.24